


Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllaw i'r Hanfodion

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a'n Lles

# Cynnwys


3 **Rhagair**

4 **Pennod 1 – Y fframwaith deddfwriaethol**
5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)
5 Deddf yr Amgylchedd (Cymru)
5 Deddf Gynllunio (Cymru)

6 **Pennod 2 – Beth yw rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol a pham ei fod e'n bwysig?**

11 **Pennod 3 – Sut gall Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy weithio gyda'i gilydd i wella llesiant**
12 Nodau llesiant a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
14 Ffyrdd o weithio
15 Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Rhestrau

16 **Pennod 4 – Blaenoriaethau cenedlaethol rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy**
17 Cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur
18 Defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a defnyddio mwy o ynni adnewyddadwy
18 Gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar le

19 **Pennod 5 – Beth mae hyn yn ei olygu i wasanaethau cyhoeddus?**
20 Datganiadau ardal
20 Adran 6: Y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau

21 **Atodiad 1 – Beth alla i ei neud i helpu i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?**
21 Cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur
22 Defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol a'r economi gylchol
22 Defnyddio ynni'n effeithlon ac ynni adnewyddadwy
22 Bioamrywiaeth

24 **Atodiad 2 – Blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol a'r nodau llesiant**

29 **Nodiadau**


OGL © Hawlfraint y Goron 2018 WG35860 ISBN digidol 978-1-78964-358-9

# Rhagair

**Mae adnoddau naturiol ac ecosystemau Cymru yn sylfaenol i'n lles ac i ansawdd ein bywyd. Y nhw sy'n darparu'r tanwydd i'n diwydiannau, ein bwyd, ein haer a dŵr glân ac maen nhw'n creu swyddi a chyfoeth.**

Mae tystiolaeth yn dangos bod ein hadnoddau naturiol, a'r buddiannau y mae ein hecosystemau'n eu cynhyrchu, yn dirywio. Mae ffactorau fel llygredd, darnio cynefinoedd, hinsawdd sy'n newid a gorddefnyddio adnoddau yn ychwanegu at y pwysau sydd arnyn nhw.

Mae cryfhau'n hadnoddau naturiol a'n hecosystemau er mwyn inni allu elwa ar eu buddiannau nawr ac yn y dyfodol, yn hanfodol. Trwy reoli'n hadnoddau naturiol yn ddoeth, cawn fynd i'r afael â phedair colofn datblygu cynaliadwy a chefnogi ein lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Dyna beth yw 'rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy'.

**Mae gan bob un ohonom ran i'w chwarae:**

- Pob rhan o Lywodraeth Cymru, y sector cyhoeddus ac awdurdodau
- Rheolwyr tir a môr
- Cwmnïau ynni, dŵr ac ati
- Cymunedau
- Gweithwyr iechyd proffesiynol
- Cyrff anllywodraethol
- Sefydliadau academaidd
- Cynllunwyr a datblygwyr
- Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnig arweiniad gan weithio ledled Cymru i'w gefnogi a galluogi ei hun ac eraill i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

Mae'r Canllaw hwn i'r Hanfodion yn ymdrin â rhan y gwasanaethau cyhoeddus yn hyn o beth.

# Y fframwaith deddfwriaethol

I ddiogelu llesiant tymor hir Cymru, rhaid inni weithio gyda'n gilydd. Mae'r canlynol yn rhoi'r fframwaith deddfwriaethol i ni:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a
- Deddf Gynllunio (Cymru).

**Er mwyn i Gymru allu datblygu'n gynaliadwy, rydyn ni wedi newid y gyfraith er mwyn cael creu'r prif elfennau i hynny allu digwydd.**

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

Hanfod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf feddwl am y tymor hir, gweithio'n well â phobl, cymunedau a chyda'i gilydd, ceisio rhwystro problemau a gweithio mewn ffordd fwy cydgysylltiedig.

## Deddf yr Amgylchedd (Cymru)

Mae Rhan 1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn disgrifio 'rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy' fel ffordd o reoli adnoddau naturiol ac ecosystemau sy'n sicrhau bod y buddiannau y maen nhw'n eu darparu ar gael er ein lles cymdeithasol, economaidd, amgylchedd a diwylliannol ni nawr a chenedlaethau'r dyfodol yfory[1].

## Deddf Gynllunio (Cymru)

Mae Deddf Gynllunio (Cymru) yn rhoi proses yn ei lle i sicrhau bod y datblygiad iawn yn digwydd yn y lle iawn.

Gyda'i gilydd, byddan nhw'n ein helpu i greu Cymru y byddwn i gyd am fyw ynddi, nawr ac yn y dyfodol.

**Mae'r Canllaw hwn i'r Hanfodion yn esbonio i'r gwasanaethau cyhoeddus:**

- Beth yw rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a pham ei fod e'n bwysig.
- Sut mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn gweithio gyda'i gilydd i wella llesiant.
- Yr hyn y gallwch chi ei wneud.

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 — Yn rhoi sail cyfreithiol i'r saith nod llesiant ac yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus weithredu'r egwyddor datblygu cynaliadwy mewn pum ffordd.

Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 — Yn creu proses statudol fodern ar gyfer cynllunio a rheoli'n hadnoddau naturiol mewn ffordd gydgysylltiedig a chynaliadwy.

Deddf Gynllunio (Cymru) 2015 — Yn gwella'r broses gynllunio bresennol i sicrhau bod y datblygiad iawn yn digwydd yn y lle iawn.

# Beth yw rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol a pham ei fod e’n bwysig?

Mae adnoddau naturiol ac ecosystemau Cymru yn hanfodol i’n lles ac i ansawdd ein bywyd.[2] Nhw sy’n darparu’r tanwydd a’r deunydd crai ar gyfer ein diwydiannau, ein bwyd, ein haer a’n dŵr glân ac maen nhw hefyd yn creu swyddi a chyfoeth ac yn cyfrannu at ansawdd ein bywyd a’n hiechyd a’n lles personol.

Mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn golygu gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy reoli adnoddau naturiol ar sail ecosystem.[3]


Ecosystemau yw'n planhigion, anifeiliaid, aer, dŵr, mwynau a phridd a'r rhyngweithio sy'n digwydd rhyngddynt.

Mae ecosystemau'n darparu amrywiaeth o fanteision ('gwasanaethau ecosystemau') sy'n cynnal ein lles.

## Beth yw'r cysylltiad rhwng yr amgylchedd a'n lles a'n hiechyd?

Aadnoddau naturiol sy'n darparu popeth a gynhyrchwn ac a ddefnyddiwn. Maen nhw'n creu cyfoeth a swyddi ac yn cyfrannu at ansawdd ein bywyd a'n lles. Ond mae'r lefel rydyn ni'n defnyddio adnoddau yn tanseilio gallu ecosystemau i'w darparu yn y dyfodol.


## Ecosystemau Cymru a'r Byd




Llygredd aer yw'r broblem iechyd cyhoeddus fwyaf ar ôl smygu, mwy nag afiechydon sy'n deillio o ddiffyg ymarfer corff fel diabetes a gordewdra.

Credir mai llygredd sŵn yw'r ffactor amgylcheddol ail fwyaf sy'n cyfrannu at faich clefydau'r DU.


## Beth mae ecosystemau'n ei roi inni?




Cynhelir yr holl wasanaethau hyn gan brosesau naturiol fel ailgylchu maethynnau, ffurfio pridd a ffotosynthesis.

Mae rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yn gofyn inni ystyried yr **HOLL** fuddiannau hyn wrth inni benderfynu sut i reoli'n hadnoddau naturiol ac ecosystemau – nid dim ond un neu ddau.

### Yr holl fuddiannau y mae coed yn eu rhoi i ni er enghraifft:



Mae ecosystemau'n dibynnu ar fioamrywiaeth – sef yr amrywiaeth o fywyd a geir ar y ddaear – i weithio'n llwyddiannus[4] ond mae'n hecosystemau a'r fioamrywiaeth sy'n eu cynnal yn dirywio. Mae angen inni weithredu i sicrhau bod yr holl fuddiannau y maen nhw'n eu darparu er ein lles ar gael i ni ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

# Bioamrywiaeth a llesiant

Y cyfoeth o fywyd naturiol ar y Ddaear yw sylfaen ein bodolaeth.

## Beth yw **bioamrywiaeth?**

Mae amrywiaeth fiolegol, neu fioamrywiaeth fel y'i gelwir, yn golygu'r amrywiaeth o rywogaethau, yr amrywiaeth enetig o fewn rhywogaethau a'r amrywiaeth o ecosystemau, i gyd gyda'i gilydd.



Mae ffactorau fel llygredd, darnio cynefinoedd, hinsawdd sy'n newid a gorddefnyddio adnoddau naturiol yn pwyso ar ein hecosystemau ac un o ddibenion rheoli adnoddau naturiol cynaliadwy yw mynd i'r afael â hynny.

## Bioamrywiaeth ac ecosystemau cryf yw sylfaen ein bodolaeth

### Dŵr



Mae ecosystemau sy'n llawn bioamrywiaeth yn cynnal y cylch dŵr ac yn darparu ***dŵr yfed glân***.

### Bwyd



Diolch i fioamrywiaeth a thir sy'n cael ei reoli'n gynaliadwy, rydyn ni'n gallu ***bwydo'n hunain*** ac mae llawer o fathau o gnydau'n dibynnu ar bryfed i'w peillio.

### Diwylliant



Bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n rhoi inni'n tirweddau a rhywogaethau eiconig, gan gyfrannu at ein ***diwylliant*** a'n ***treftadaeth***.

### Iechyd



Mae bioamrywiaeth ac ecosystemau'n cynnal ein ***hiechyd***, meddyliol a chorfforol ac mae'r rhan fwyaf o ***feddyginiaethau*** synthetig hefyd yn tarddu o natur.



Mae bioamrywiaeth ac ecosystemau cryf aciach yn lleihau effeithiau'r ***newid yn yr hinsawdd*** e.e. trwy ein hamddiffyn rhag sychder a llifogydd.

### Y bygythiadau i fioamrywiaeth ac ecosystemau

Llygredd



Darnio Cynefinoedd



Y Newid yn yr Hinsawdd



Gorddefnyddio adnoddau naturiol



Rhywogaethau estron ymledol




Cewch ragor o wybodaeth am fioamrywiaeth ac ecosystemau – beth ydyn nhw a pham maen nhw'n bwysig, yma yn www.biodiversitywales.org.uk/Bioamrywiaeth

# Sut gall Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy weithio gyda’i gilydd i wella llesiant

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn rhan 1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) wedi’u datblygu i weithio gyda’i gilydd am fod adnoddau naturiol ac ecosystemau Cymru yn sylfaenol i’n lles diwylliannol, cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

# Nodau llesiant a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

## Y Nodau Llesiant




Yn **Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol** mae 'datblygu cynaliadwy' yn golygu'r broses o wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru trwy weithredu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy[5], i gyflawni'r nodau llesiant. Mae'r nodau llesiant yn weledigaeth gytûn i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithio gyda'i gilydd i'w gwireddu. Er mwyn i Gymru fod yn gynaliadwy, mae'n bwysig ein bod yn gwella'r pedwar llesiant. Maen nhw i gyd yr un mor bwysig â'i gilydd. Rhaid i bob corff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithio i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru gan bennu amcanion er mwyn cyfrannu cymaint ag y medrant at gyflawni'r nodau a gweithredu i wireddu'r amcanion hyn.

## Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy

Mae **Rhan 1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gosod amcan**, rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol. Diben hyn yw gweithredu i gryfhau adnoddau naturiol ac ecosystemau Cymru er mwyn sicrhau bod y gwasanaethau ecosystemau y maen nhw'n eu darparu ar gael at gyflawni'r nodau llesiant nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae cysylltiad clir yn y diffiniad â'r egwyddor datblygu cynaliadwy i adlewyrchu'r ffaith bod ein lles yn dibynnu ar adnoddau naturiol ac ecosystemau Cymru[6].

Mae Rhan 1 y Ddeddf yn cynnig hefyd fframwaith cyflawni ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, fel a ganlyn:

## Yr Adroddiad am Sefyllfa Adnoddau Naturiol

Adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'n dangos nad oes yr un ecosystem yng Nghymru cyn gryfed ag y dylai fod ac mae hynny'n effeithio ar allu'n hecosystemau i ddarparu buddiannau er ein lles. Mae'n esbonio hefyd sut y mae adnoddau naturiol yn cyfrannu at ein lles.

**Cewch ragor o wybodaeth am yr adroddiad yma** – https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/the-state-of-natural-resources-report-assessment-of-the-sustainable-management-of-natural-resources/?lang=cy

## Y Polisi Adnoddau Naturiol

Mae Polisi Adnoddau Naturiol Gweinidogion Cymru yn rhestru'r blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, ar sail y sylfaen genedlaethol o dystiolaeth a geir yn yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol. Y blaenoriaethau cenedlaethol fydd y prif ffyrdd y bydd adnoddau naturiol Cymru'n cyfrannu at yr holl nodau llesiant. Maen nhw wedi cael eu datblygu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'n hadnoddau naturiol a gwireddu'r cyfleoedd y maen nhw'n eu cynnig.

Y blaenoriaethau cenedlaethol yw:

- Cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur.
- Defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a defnyddio mwy o ynni adnewyddadwy.
- Gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar le.


Cewch ragor o wybodaeth yma: https://gov.wales/docs/desh/publications/170821-natural-resources-policy-cy.PDF

Cewch ragor o fanylion sut y mae'r blaenoriaethau cenedlaethol yn cyfrannu at bob un o'r nodau llesiant yn Atodiad 2.

## Datganiadau Ardal

Mae Datganiadau Ardal Cyfoeth Naturiol Cymru'n cyfrannu at roi'r Polisi Adnoddau Naturiol ar waith mewn cyd-destun lleol, gan weithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar le. Trwy weithredu ar sail lle, ceir ffocws ar gydweithredu i sicrhau canlyniadau yn yr ardal dan sylw. Cymunedau ŵyr orau beth yw'r blaenoriaethau a'r cyfleoedd lleol sy'n gyson â'r blaenoriaethau cenedlaethol a sut i gael hyd i atebion ymarferol sy'n esgor ar y buddiannau mwyaf gan sicrhau bod pobl leol yn elwa'n llawn ar yr adnoddau naturiol yn eu hardal.

Cewch ragor o wybodaeth yn: https://naturalresources.wales/about-us/area-statements/?lang=cy



# Ffyrdd o weithio

Rhaid i gyrff cyhoeddus gymryd pob cam rhesymol i gyflawni'u nodau llesiant yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Rhaid i gyrff cyhoeddus weithredu yn unol â'r 5 ffordd o weithio a dangos eu bod wedi dilyn yr egwyddor datblygu cynaliadwy wrth geisio cyflawni'u nodau llesiant.

## Hirdymor

Pwysigrwydd taro cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor.

## Atal

Sut y gall gweithredu i osgoi problemau neu'u hatal rhag gwaethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni'u hamcanion.

## Cydweithio

Cydweithio ag unrhyw berson arall (neu rannau eraill o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni'i amcanion llesiant.

## Integreiddio

Ystyried sut y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar ei amcanion neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

## Cyfranogiad

Pwysigrwydd cael y rheini sydd â budd gweld y nodau llesiant yn cael eu gwireddu i gymryd rhan a sicrhau eu bod yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn nodi naw egwyddor neu ffordd o weithio y dylid eu defnyddio wrth weithio i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

**Rhaid i'r canlynol ddilyn egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy wrth reoli adnoddau naturiol:**

- CNC, wrth iddo wneud ei swyddogaethau, gan gynnwys yr Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal.
- Gweinidogion Cymru, wrth iddyn nhw ddatblygu a chynnal y Polisi Adnoddau Naturiol.

## Yr Egwyddorion

Ystyried canlyniadau tymor byr, canolig a hir unrhyw gamau a gymerir

Gweithredu i atal difrod arwyddocaol i ecosystemau

Hyrwyddo cydweithio a chydweithredu a chyfranogi ynddyn nhw

Gwneud trefniadau priodol i'r cyhoedd gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau

Ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol a chasglu tystiolaeth mewn perthynas â materion y ceir ansicrwydd yn eu cylch

Rheoli mewn modd ymaddasol, drwy gynllunio, monitro, adolygu a phan fo hynny'n briodol, newid gweithredoedd

Ystyried y raddfa ofodol briodol ar gyfer gweithredu

Ystyried manteision a gwerth cynhenid adnoddau naturiol ac ecosystemau

Ystyried cydnerthedd ecosystemau.

# Y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Rhestrau

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn cydnabod cyfraniad sylfaenol bioamrywiaeth at reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a'n lles trwy greu dyletswydd adran 6 i wella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Mae'r ddyletswydd hon yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau yng Nghymru ac wrth wneud, hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol[7].

Mae Adran 7 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn gofyn i Weinidogion Cymru baratoi a chyhoeddi rhestr o rywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwysigrwydd pennaf i Gymru a chymryd pob cam rhesymol i gynnal a gwella'r rhywogaethau a'r cynefinoedd hyn ac annog pobl a chyrff eraill i wneud yr un peth.

# Blaenoriaethau cenedlaethol rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy

Blaenoriaethau cenedlaethol rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw'r prif ffyrdd y gall adnoddau naturiol Cymru gyfrannu at bob un o'r nodau llesiant.

Y blaenoriaethau cenedlaethol yw:

- Cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur
- Defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a defnyddio mwy o ynni adnewyddadwy
- Gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar le

## Cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur

Mae atebion sy'n seiliedig ar natur yn defnyddio natur a phrosesau naturiol i ddatrys rhai o'n problemau mwyaf fel llifogydd, llygredd aer neu broblemau iechyd sy'n gysylltiedig â diffyg gweithgarwch corfforol. Maen nhw'n cynnwys amrywiaeth eang o fesurau i gryfhau ecosystemau a chyfoethogi bioamrywiaeth; gwella seilwaith ar gyfer rheoli tir a dŵr yn well; helpu ymdrechion i addasu i hinsawdd sy'n newid a lliniaru ei effeithiau a chefnogi iechyd a lles. Hefyd, trwy ddefnyddio atebion bioamrywiol sy'n seiliedig ar natur, rydyn ni'n cryfhau'n hadnoddau naturiol a'n hecosystemau – manteision felly o bob ochr.

### Arloesi gyda Natur

Mae atebion sy'n seiliedig ar natur yn hwb i'r economi, yn creu swyddi ac yn cynnal ein lles. Maen nhw'n ein helpu i daclo rhai o'n heriau mwyaf mewn ffordd gost effeithiol.



### Mae seilwaith gwyrdd trefol mwy bioamrywiol yn enghraifft o ateb sy'n seiliedig ar natur

**Ein seilwaith gwyrdd trefol:**

- Ein holl fannau agored a'r rhwydwaith o gynefinoedd, parciau, caeau chwarae, rhandiroedd, gerddi preifat, pyllau, afonydd, camlesi, coetir, perthi a choed stryd a gardd. Mae'n cynnwys yr holl fannau gwyrdd ac mewn rhai trefi, mae yna lawer iawn o gynefinoedd lled-naturiol.
- Gellir ei beiriannu i ffurfio toeon a waliau gwyrdd, draeniau trefol cynaliadwy a choed stryd.
- Gall fod yn rhan o'n rhwydwaith ffyrdd, er enghraifft, trwy blannu blodau gwyllt ar ymylon ffyrdd a rheilffyrdd ac ar gylchfannau i ddenu natur.
- Y cysylltiadau rhwng ein hardaloedd trefol a'u cyffiniau fel bod un yn arwain i'r llall.

**Mae'n rhan o'n seilwaith sylfaenol a gall wella'n hardaloedd adeiledig.**

Er enghraifft, gall ymgorffori seilwaith gwyrdd yn ein datblygiadau tai godi gwerth y tir, ychwanegu at werth cymunedau lleol ac annog buddsoddi adeiladol.

### Mae seilwaith gwyrdd trefol bioamrywiol yn cynnig llawer o fanteision

**Iechyd corfforol a meddyliol**

Yn helpu i leihau llygredd aer, dŵr a sŵn yn ein trefi trwy hidlo llygredd a lleihau llifogydd dŵr wyneb trwy ddarparu lle i ddŵr glaw ymdreiddio iddo.

Yn helpu i lanhau tir llygredig ar lles y gymuned ehangach.

Yn darparu cynefin i natur ger lle mae pobl yn byw, gan roi cyfle i bobl brofi a mwynhau natur. Mae hynny'n helpu'n hiechyd meddwl ac yn creu cyfleoedd i ddysgu yn yr awyr agored.

Mae rhandiroedd a gerddi'n cynnig cyfleoedd i dyfu bwyd i'r gymuned.

Mae'n cynnig cyfleoedd ar gyfer teithio llesol.

**Cydlyniant cymdeithasol**

Mae mannau gwyrdd sy'n hwylus i gymunedau lleol yn llefydd sâff i gwrdd a chwarae ynddyn nhw, gan ein helpu i ymlacio ac ymarfer corff.

**Gweithredu dros yr hinsawdd**

Mae carbon sy'n cael ei storio mewn pridd a choed yn helpu i arafu'r newid yn yr hinsawdd ac mae seilwaith gwyrdd yn ein helpu i addasu i'r hinsawdd trwy oeri ardaloedd ac adeiladau trefol a lleihau llifogydd. Mae gosod toeon a walydd gwyrdd mewn hen adeiladau ac adeiladu newydd yn ein helpu i arbed ynni ac mae'r biomas ychwanegol mewn seilwaith gwyrdd yn gallu cynnig cyfleoedd i gynhyrchu ynni adnewyddadwy.

**Ffyniant**

Mae cwmnïau'n cael eu denu i leoedd sydd â mannau cyhoeddus sy'n cael eu dylunio a'u rheoli'n dda gan gefnogi adfywiad.

Mae parciau braf yn denu ymwelwyr a'u harian ac yn codi prisiau tai gan gynhyrchu mwy o dreth gyngor.


**Gall cynyddu seilwaith gwyrdd gael effaith fawr ar ein lles:**

- Yn 2015, amcangyfrifwyd bod y llygredd a dynnwyd o'r aer gan blanhigion y DU wedi arbed gwerth rhagor na £1 biliwn o gostau iechyd yn y flwyddyn honno yn unig.
- Mae pobl sy'n byw o fewn 500 metr i le gwyrdd hygyrch 24% yn fwy tebygol o gwrdd â'r targed o 30 munud o ymarfer corff.
- Mae Defra wedi amcangyfrif pe bai pawb o fewn cyrraedd rhwydd i le gwyrdd, gallai'r cynnydd mewn gweithgarwch corfforol arbed £2.1bn y flwyddyn i'r gwasanaeth iechyd.

## Defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a defnyddio mwy o ynni adnewyddadwy

Byddai gwneud hyn yn lleihau'r pwysau ar adnoddau naturiol Cymru a hefyd yn creu swyddi a chyfleoedd newydd yn y farchnad. Mae defnyddio adnoddau naturiol yn ddoeth yn ffactor allweddol sy'n gwneud busnesau llwyddiannus yn fwy cystadleuol.

Ar hyn o bryd, rydyn ni'n defnyddio mwy o adnoddau naturiol nag yr ydyn ni'n eu rhoi yn ôl. Mae hyn yn creu risgiau amhosib eu rheoli o fewn cadwyni cyflenwi gan fygwth sefydlogrwydd busnesau. Mewn economi gylchol, mae gwerth cynnyrch a deunyddiau'n cael ei gadw am gymaint o amser â phosib.




Bydd llai o wastraff a llai o adnoddau'n cael eu defnyddio, a phan ddaw cynnyrch i ddiwedd ei oes, caiff ei ddefnyddio eto i greu rhagor o werth. Gall hyn ddod â buddiannau economaidd mawr, gan gyfrannu at arloesedd, twf a swyddi. Mae'n egwyddor y gellir ei ddefnyddio mewn llawer o sectorau'r economi.

Er mwyn gallu datgarboneiddio, rhaid lleihau'r galw am ynni a defnyddio ynni'n fwy effeithlon. Mae gan bob sector ac ardal ei rhan i daro'r targedau datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy a dylen ni fanteisio ar bob cyfle i fuddsoddi mewn mesurau arbed ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy a fydd yn cadw mwy o werth yn yr ardal ac yn gwella llesiant.

Dylen ni ddefnyddio'r adnoddau adnewyddadwy sydd ar gael inni gan ystyried y tir, adeiladau a'r arian sydd ar gael i gynhyrchu trydan a gwres adnewyddadwy. Mae gennym gyfleoedd i weithio gyda chymunedau a busnesau lleol i gynnal prosiectau ynni. Nod Llywodraeth Cymru yw gweld sector cyhoeddus di-garbon erbyn 2030.

- Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn helpu'r sector cyhoeddus a mudiadau cymunedol i glustnodi, datblygu a chynnal prosiectau ynni adnewyddadwy ac arbed ynni.

## Gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar le

Mae gweithredu ar sail lle yn golygu gweithio gyda chymunedau i lywio blaenoriaethau a chyfleoedd lleol ar gyfer adnoddau naturiol, gan sicrhau bod pobl leol yn cael elwa'n llawn. Bydd datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi gweithredoedd sy'n seiliedig ar le.

Cewch ragor o wybodaeth am y blaenoriaethau cenedlaethol a'r camau y gallwch eu cymryd yn Atodiad 1.

# Beth mae hyn yn ei olygu i wasanaethau cyhoeddus?

Mae adnoddau naturiol o ansawdd uchel ac ecosystemau cydnerth ac iach yn sylfaenol i'n lles. Mae

- rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy
- blaenoriaethau cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol a
- Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau adran 6

yn ffyrdd allweddol i wasanaethau cyhoeddus allu cyfrannu at wneud eu dyletswyddau yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol a Deddf yr Amgylchedd (Cymru).

## Datganiadau ardal

Bydd datganiadau ardal Cyfoeth Naturiol Cymru yn cefnogi gwaith sy'n seiliedig ar le sy'n mynd i'r afael â heriau, cyfleoedd a blaenoriaethau cenedlaethol yn y Polisi Adnoddau Naturiol. Maen nhw'n troi'r blaenoriaethau cenedlaethol yn weithredoedd y gellir eu cynnal ledled Cymru. Maen nhw'n dangos y dystiolaeth leol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn nodi'r cyfleoedd lle gall cydweithio ein helpu i wireddu blaenoriaethau cenedlaethol, gwella cydnerthedd ecosystemau a chael y gorau o'r buddiannau lles y mae adnoddau naturiol ac ecosystemau Cymru yn eu darparu. Rhaid i Gynlluniau Datblygu Lleol, Asesiadau Llesiant Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a chynlluniau Parciau Cenedlaethol ac AHNE ystyried y dystiolaeth hon. Rhaid i gyrff cyhoeddus roi i Cyfoeth Naturiol Cymru yr wybodaeth sydd ei hangen arno i baratoi'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru'n cael gofyn hefyd i gyrff cyhoeddus ei helpu i ddelio â'r blaenoriaethau, risg a'r cyfleoedd o ran rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy a nodir yn y Datganiadau Ardal.

## Adran 6: Y ddyletswydd bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau

Mae gweithredu dros fioamrywiaeth yn elfen bwysig o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy gan fod bioamrywiaeth yn sylfaenol i'r ffordd y mae ein hecosystemau'n gweithio – ac mae ein bioamrywiaeth yn prinhau.

Amcan dyletswydd adran 6 yw sicrhau bod ystyried bioamrywiaeth yn rhan annatod o bob penderfyniad a gweithred gan awdurdod cyhoeddus yng Nghymru. Gall awdurdodau cyhoeddus gyfrannu at wyrdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth trwy feddwl am effaith eu penderfyniadau a'r ffordd y maen nhw'n arfer eu swyddogaethau ar fioamrywiaeth.

Mae awdurdodau cyhoeddus yn cynnwys y cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf Llesiant. Er mwyn cydymffurfio â dyletswydd A6, mae angen i'r cyrff cyhoeddus hynny gynnal a gwella bioamrywiaeth. Bydd hynny'n golygu cefnogi'r amcanion llesiant a'r egwyddor o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Gall y cynllun adran 6 y mae'r Ddeddf yn gofyn amdano fod yn ffordd bwysig o ddangos ac adrodd ar y camau y mae corff cyhoeddus neu fwrdd gwasanaeth cyhoeddus yn eu cymryd i gynnal amcanion a chynlluniau llesiant. Mae Adroddiad Cyfoeth Naturiol Cymru ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol a'r Datganiadau Ardal yn dystiolaeth leol a chenedlaethol o gyflwr bioamrywiaeth ac ecosystemau y gall awdurdodau cyhoeddus ei defnyddio wrth wneud ei dyletswydd adran 6.

Cewch ragor o wybodaeth yn y canllaw i adran 6 gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/environment-act/guidance-for-section-6/?skip=1&lang=cy yn Atodiad 1 ac yn www.biodiversitywales.org.uk/Deddf-yr-Amgylchedd-Cymru

### Beth sydd angen inni ei wneud dros fioamrywiaeth


Ystyried bioamrywiaeth a'i buddiannau a'i gwerthoedd ym mhob penderfyniad.



Gwarchod rhywogaethau, cynefinoedd ac ardaloedd pwysig.



Adfer a chreu rhwydweithiau ecolegol cryf.



Defnyddio'r dystiolaeth orau wrth wneud penderfyniadau.



# Beth alla i ei neud i helpu i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy?

## Cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur

### Cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur – cyffredinol

ec.europa.eu/research/environment/index.cfm?pg=nbs

https://www.iucn.org/commissions/commission-ecosystem-management/our-work/nature-based-solutions

### Cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur – astudiaethau achos mewn dinasoedd

Bristol – NBS for ensuring a sustainable future
www.oppla.eu/node/18002

London – NBS for a leading sustainable city
www.oppla.eu/node/18093

Edinburgh – NBS enhancing health, wealth and sustainability
www.oppla.eu/node/18004

Dublin – NBS for a more sustainable city by 2030
www.oppla.eu/node/17999

### Cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur – seilwaith gwyrdd

www.tcpa.org.uk/green-infrastructure-research-database

www.buildingwithnature.org.uk/

mainstreaminggreeninfrastructure.com/

### Integreiddio atebion sy'n seiliedig ar natur ar draws sectorau

Datblygu masnachol a thai
www.buildingwithnature.org.uk/

Iechyd
ec.europa.eu/environment/nature/ecosystems/pdf/Green%20Infrastructure/GI_health.pdf

Trafnidiaeth
ec.europa.eu/environment/nature/ecosystems/pdf/Green%20Infrastructure/GI_transport.pdf

Ynni
ec.europa.eu/environment/nature/ecosystems/pdf/Green%20Infrastructure/GI_energy.pdf

Y sector ariannol
ec.europa.eu/environment/nature/ecosystems/pdf/Green%20Infrastructure/GI_finance.pdf

Rheoli dŵr a llifogydd

naturalresources.wales/flooding/managing-flood-risk/maps-for-natural-flood-management/?lang=cy

www.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/654431/Working_with_natural_processes_evidence_directory.pdf

www.therrc.co.uk/eu-riverwiki

www.sepa.org.uk/media/163560/sepa-natural-flood-management-handbook1.pdf

www.hrwallingford.com/projects/green-infrastructure-supporting-green-river-engineering

www.nerc.ac.uk/research/funded/programmes/nfm/

www.catchmentbasedapproach.org/resources/tools-and-casestudies

Addasu i hinsawdd sy'n newid
ec.europa.eu/environment/nature/ecosystems/pdf/Green%20Infrastructure/GI_climate_adaptation.pdf

## Defnyddio adnoddau'n fwy effeithiol a'r economi gylchol

www.livingcircular.veolia.com/en/eco-citizen/circular-economy-home

www.ellenmacarthurfoundation.org/circular-economy/overview/concept

## Defnyddio ynni'n effeithlon ac ynni adnewyddadwy

Mae Gwasanaeth Ynni Llywodraeth Cymru yn helpu'r sector cyhoeddus a mudiadau cymunedol i glustnodi, datblygu a chynnal prosiectau ynni adnewyddadwy ac arbed ynni.

## Bioamrywiaeth

Dylai'r camau a gymerir dros fioamrywiaeth, cyn belled ag y bod modd, fod yn seiliedig ar y 6 amcan yng Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru. Lluniwyd y camau er mwyn cyfrannu at wrthdroi'r dirywiad ym mioamrywiaeth Cymru[8].

Dyma'r 6 amcan ar gyfer cynnal a gwella bioamrywiaeth:

- Amcan 1: Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth fwrw gwreiddiau yn y broses benderfynu ar bob lefel
- Amcan 2: Diogelu rhywogaethau a chynefinoedd sydd o'r pwys mwyaf a'u rheoli'n well
- Amcan 3: Gwneud ein hamgylchedd naturiol yn fwy cydnerth* drwy adfer cynefinoedd sydd wedi'u diraddio a chreu cynefinoedd
- Amcan 4: Mynd i'r afael â'r prif bwysau ar rywogaethau a chynefinoedd
- Amcan 5: Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n gwaith monitrog
- Amcan 6: Rhoi fframwaith llywodraethu a chymorth ar waith i gyflawni'r amcanion.[9]

*Yn ôl Deddf yr Amgylchedd (Cymru), dyma nodweddion ecosystem gydnerth neu gref:

- Amrywiaeth – A siarad yn gyffredinol, mae ecosystemau mwy amrywiol yn fwy cydnerth, hynny yw yn gallu gwrthsefyll ffactorau allanol a'u heffeithiau. Mae amrywiaeth yn golygu amrywiaeth fiolegol, daearegol a ffisegol
- Cysylltedd o fewn ecosystemau a rhyngddynt

- Maint a Chwmpas – ehanga'n y byd yw cwmpas ecosystem, heb fylchau, mwya'n y byd yw ei chydnerthedd
- Cyflwr – mae angen i'r ecosystem fod mewn cyflwr iach i weithio'n effeithiol a darparu ystod o wasanaethau ecosystem pwysig
- Addasu – gallu ecosystem i addasu i ddigwyddiadau a deall nad yw ecosystemau'n sefydlog a'u bod yn newid dros amser.

Dylai pob adran mewn awdurdod cyhoeddus ystyried sut y gall gyfrannu at amcanion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ac i wella cydnerthedd, trwy ystyried y nodweddion uchod. Ambell waith, mae gweithredu ar draws y sefydliad cyfan yn fwy priodol.

**Rhoddir rhai enghreifftiau isod:**

- Codi ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad sut y gall pob rôl effeithio a dylanwadu ar fioamrywiaeth ac ystyried mesurau ym mhob polisi, cynllun a phrosiect i gyfoethogi bioamrywiaeth ac ecosystemau. Dylid ei wneud yn ganolog i'r broses cynllunio busnes corfforaethol
- Meddwl sut y gall gwella bioamrywiaeth helpu pob un o weithgareddau'r sefydliad e.e. hamdden egnïol, addysg, atal llifogydd, tyfu bwyd yn lleol. Er enghraifft, mae toeon gwyrdd yn helpu i ddarparu cynefinoedd bywyd gwyllt, i leihau defnydd o ynni ac i wella systemau draenio
- Defnyddio atebion naturiol brodorol, bioamrywiol, lle medrir
- Defnyddio llai o ddeunyddiau, a'u hailddefnyddio a'u hailgylchu, ac wrth brynu cynhyrchion fel papur, sicrhau bod y cyflenwadau hynny'n dod o ffynonellau cynaliadwy – h.y. papur o goedwigoedd cynaliadwy
- Chwilio am gyfleoedd, mawr neu fach, i helpu i annog bioamrywiaeth – e.e. plannu rhywogaethau brodorol, ardaloedd blodau gwyllt ar gyfer pryfed peillio, gadael porfa heb ei thorri, a gwella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd gwerthfawr
- Diogelu rhywogaethau, cynefinoedd ac ardaloedd gwarchodedig
- Adfer cynefinoedd i fod mor naturiol a chydnerth â phosib
- Cefnogi creu cynefinoedd newydd fel perllannau lleol, perthi brodorol, dolydd blodau a thiroedd gwyrdd eraill sy'n gyfeillgar i natur y gall y gymuned leol eu defnyddio'n hawdd
- Rheoli'r tir sydd o dan eich rheolaeth fel ei fod yn gyfoethog o ran natur a chael eich staff i'w gynllunio a'i reoli
- Gweithredu i gefnogi pryfed peillio a dod yn gorff Caru Gwenyn[10]
- Os ydych yn gyfrifol am ymylon ffyrdd, rheolwch nhw fel eu bod yn cyfrannu at gadw ffyrdd yn ddiogel ac yn llesol i natur
- Gwnewch benderfyniadau a chynlluniau gan ddefnyddio'r dystiolaeth orau sy'n bod a chyfrannu at ein gwybodaeth lle medrwch, er enghraifft trwy gyfrannu at fentrau gwyddoniaeth y bobl
- Cefnogi a chymryd rhan mewn partneriaethau a mentrau cydweithio sy'n gweithredu'n lleol ac yn gymunedol o blaid bioamrywiaeth, a/neu gynnig arian iddynt.

**Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma:**
www.wcva.org.uk/what-we-do/invest-in-nature-cymru/ms4n/invest-in-nature?seq.lang=cy-GB

Atodiad 2

# Blaenoriaethau'r Polisi Adnoddau Naturiol a'r nodau llesiant

| Blaenoriaethau cenedlaethol y PAN | Cwmpas | Nodau llesiant perthnasol | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|
| Cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur | • Datblygu rhwydweithiau ecolegol cydnerth i gynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau Cymru.<br>• Helpu i addasu i hinsawdd sy'n newid a lliniaru ei effeithiau, a rheoli llifogydd.<br>• Gwella seilwaith – fel y seilwaith gwyrdd a systemau trin dŵr, er enghraifft systemau draenio trefol, pantiau a gwelyau cyrs.<br>• Gwella dulliau o reoli tir a dŵr – er enghraifft, defnyddio dulliau integredig o reoli ac addasu'r parth arfordirol ac o reoli adnoddau dŵr, dulliau naturiol o reoli llifogydd, gwella rheolaeth pridd ar gyfer dal a storio carbon, ansawdd dŵr a pharhad cynhyrchiant, er enghraifft rheoli mawnogydd, coridorau glan afon a phlannu perthi/gwrychoedd yn strategol ar ffermydd. | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Bydd atebion sy'n seiliedig ar natur yn cyfrannu at y nod cenedlaethol o *'Gymru lewyrchus'* trwy helpu i greu ecosystemau cydnerth sy'n cyfrannu at amodau ffafriol ar gyfer gweithgarwch economaidd. Bydd y mesurau yn y PAN o dan y flaenoriaeth hon yn helpu i sicrhau hefyd fod ecosystemau'n gallu gwrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, gan ddod ag elfen tymor hir i'r nod hwn. Gallai'r potensial i ddatblygu gwasanaethau ecosystemau o fewn yr economi gyfrannu at y nod hwn hefyd.<br>Bydd datblygu rhwydweithiau ecolegol i gynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau Cymru yn cyfrannu at gyflawni'r nod cenedlaethol o *'Gymru gydnerth'*.<br>Bydd gwella seilwaith gwyrdd yn cyfrannu at y nod cenedlaethol o *'Gymru iachach'*. Mae'r PAN yn nodi cyfleoedd i greu llwybrau iechyd, campfeydd gwyrdd a llonyddwch.<br>Mae atebion sy'n seiliedig ar natur o'u cyfuno â rheoli sy'n seiliedig ar le yn gallu cyfrannu at y nod cenedlaethol o *'Gymru sy'n fwy cyfartal'*, er enghraifft, trwy dargedu prosiectau mewn ardaloedd difreintiedig a sicrhau bod pobl yn elwa yn y tymor hir ar welliannau i seilwaith, ond gan sicrhau hefyd bod pobl leol yn cyfrannu at gynnal cynlluniau sy'n gwella sgiliau ac argoelion gwaith. |

| Blaenoriaethau cenedlaethol y PAN | Cwmpas | Nodau llesiant perthnasol | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|
| | | | Bydd defnyddio atebion sy'n seiliedig ar natur i daclo problemau fel llygredd, llifogydd a chapasiti/cydnerthedd seilwaith yn cyfrannu at ddatblygu cymunedau deniadol, hyfyw, diogel sydd â chysylltiadau da. Byddai hynny'n gyson â'r nod cenedlaethol o *"Gymru o gymunedau cydlynus'*.<br><br>Bydd gan CNC ran allweddol i'w chwarae o ran dylunio a darparu atebion sy'n seiliedig ar natur a Datganiadau Ardal. Gallai atebion sy'n seiliedig ar natur roi'r cyfle i chwilio am gyfleoedd i hyrwyddo a datblygu'r defnydd o'r Gymraeg trwy gynhyrchu Datganiadau Ardal a dylunio a chynnal prosiectau. Bydd hyn yn helpu i gyflawni'r nod o *'Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'*.<br><br>Trwy fynd am atebion sy'n seiliedig ar natur i fynd i'r afael â materion fel lluniaru effeithiau hinsawdd sy'n newid a datblygu mesurau penodol fel dal a storio carbon, cyfrennir at y nod cenedlaethol o *"Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd eang'*. |
| **Defnyddio Adnoddau'n fwy Effeithlon a Chynhyrchu mwy o Ynni Adnewyd-dadwy** | • Yn ogystal ag ystyried sut rydym yn rheoli'n tir a'n moroedd, mae angen inni hefyd ystyried sut y gallwn reoli'n hadnoddau naturiol yn fwy effeithlon.<br><br>• Gall hyn helpu i leihau'r pwysau sy'n wynebu'n hadnoddau naturiol, creu swyddi newydd a chyfleoedd yn y farchnad a lleihau costau gweithredu a'r ansicrwydd sy'n deillio o ansefydlogrwydd y farchnad. | Cymru lewyrchus<br><br>Cymru gydnerth<br><br>Cymru iachach<br><br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br><br>Cymru o gymunedau cydlynus | Bydd y flaenoriaeth hon yn cynnwys rhoi cyfleoedd i greu swyddi a chynnal twf economaidd cynaliadwy a helpu i leihau'r risgiau i ddiogelwch tymor hir y gadwyn gyflenwi yn ogystal â chyfrannu at gymdeithas isel ei charbon. Bydd yn cyfrannu at y nod cenedlaethol o *'Gymru lewyrchus'*.<br><br>Bydd cynyddu ynni adnewyddadwy a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon yn ganolog i'r nod cenedlaethol o *'Gymru gydnerth'*. Wrth gynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy, bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i gynlluniau |

| Blaenoriaethau cenedlaethol y PAN | Cwmpas | Nodau llesiant perthnasol | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|
| | • Adeiladu ar ein llwyddiant ym maes ynni adnewyddadwy ac ailgylchu. Bydd datblygu economi sy'n defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon yn ganolog i dwf gwyrdd.<br>• Cymryd camau i ddatblygu economi fwy cylchol, sy'n ymestyn y defnydd cynhyrchiol o ddeunyddiau crai. Mae hynny eisoes yn lleihau'r galw am ddeunyddiau.<br>• Lleihau'n heffaith ar ein hadnoddau naturiol gan hefyd greu mwy o gyfleoedd i greu gwaith a thwf economaidd cynaliadwy, a helpu i fynd i'r afael â'r bygythiadau i ddiogelwch hirdymor y cadwyni cyflenwi. | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br><br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | unigol rhag eu lleoli mewn mannau amhriodol a allai effeithio ar fuddiannau amgylcheddol sy'n gwella cydnerthedd.<br><br>Gallai'r flaenoriaeth hon gyfrannu at y nod cenedlaethol o *'Gymru iachach'* trwy fesurau i wneud y stoc dai bresennol yn fwy ynni effeithiol. Gallai mesurau arbed ynni, ynghyd â systemau awyru addas, helpu i leihau tlodi tanwydd a gwella iechyd trwy wneud tai'n gynhesach a lleihau llygredd aer.<br><br>Bydd symud at economi gylchol a defnyddio mwy o ynni adnewyddadwy yn creu cyfleoedd gwaith. Gallai'r flaenoriaeth hon gyfrannu felly at y nod cenedlaethol o *'Gymru fwy cyfartal'*.<br><br>Gallai defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a chynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy gyfrannu at greu cymunedau sy'n fwy deniadol trwy leihau'r angen tymor hir am domennydd tirlenwi. Ceir cyfle hefyd i hyrwyddo cynlluniau ynni adnewyddadwy lleol allai wella'r amgylchedd. Gallai hynny gyfrannu at y nod o *'Gymru o gymunedau cydlynus'* (sy'n cynnwys gwneud cymunedau'n fwy deniadol).<br><br>Gallai mwy o ynni adnewyddadwy a defnyddio adnoddau'n effeithlon gyfrannu at y nod o *'Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'* ond bydd yn dibynnu sut y caiff y prosiectau eu cynnal. |

| Blaenoriaethau cenedlaethol y PAN | Cwmpas | Nodau llesiant perthnasol | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|
| | | | Gallai'r symudiad at economi gylchol ac effeithlonrwydd greu gyfleoedd ar gyfer cydweithio rhyngwladol mewn ymchwil, buddsoddi a masnach.<br>Mae hynny'n gyson â'r nod cenedlaethol o *'Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd eang'*. |
| **Gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar leoedd** | • Un o nodweddion sylfaenol ein dull o reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw'r modd rydym yn canolbwyntio ar gydweithio i gyflawni canlyniadau'n lleol.<br>• Y cymunedau eu hunain sydd yn y sefyllfa orau i ddeall blaenoriaethau lleol ac i ddylanwadu arnynt, ac i ddod o hyd i atebion sy'n cynnig y buddion ehangaf posibl.<br>• Sicrhau bod pobl leol bob amser yn cael budd llawn o'r adnoddau naturiol yn eu hardal.<br>• Galluogi cydweithredu ar y raddfa briodol, (ar safle penodol, mewn rhanbarth neu ddalgylch penodol neu o safbwynt tirwedd neu ecosystem) ac yn y lle priodol. Bydd Datganiadau Ardal yn chwarae rhan allweddol o ran adnabod y cyfleoedd a'r cyfyngiadau lleol, a'u cysylltiad â'r blaenoriaethau cenedlaethol. | Cymru lewyrchus<br>Cymru gydnerth<br>Cymru iachach<br>Cymru sy'n fwy cyfartal<br>Cymru o gymunedau cydlynus<br>Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu<br>Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang | Gallai gweithredu ar sail lle helpu i gyflawni llawer o brif themâu'r nod *'Cymru lewyrchus'*. Trwy dargedu'r swyddi a ddaw yn sgil y cynlluniau, gallai'r flaenoriaeth hon gyfrannu at wella sgiliau a phrofiadau'r gweithlu lleol ac at ddyfodol llewyrchus i amaethyddiaeth Cymru a helpu prosiectau cymunedol.<br>Byddai nodi problemau ac atebion lleol trwy weithredu ar sail lle yn cyfrannu at y nod o *'Gymru gydnerth'*. Mae gweithredu ar sail lle yn hanfodol i sicrhau amgylcheddau naturiol bioamrywiol sydd ag ecosystemau byw iach sy'n gwella cydnerthedd cymdeithasol, economaidd ac ecolegol ac sy'n gallu addasu i newid yn unol â'r nod hwn.<br>Mae Symud Cymru Ymlaen yn cydnabod y cysylltiad rhwng iechyd meddwl a gwaith ac os ydy gweithredu ar sail lle yn cynnwys targedu gwaith, yna gallai gyfrannu at y nod o *'Gymru iachach'*.<br>Gall mentrau sy'n seiliedig ar le sy'n darparu hyfforddiant a gwaith gefnogi hefyd y nod cenedlaethol o *'Gymru fwy cyfartal'*.<br>Mae'r egwyddor mai pobl leol ddylai elwa ar adnoddau naturiol eu hardal hefyd yn gyson â'r nod hwn. Mae gweithredu ar sail lle yn gyson hefyd â'r nod cenedlaethol o *'Gymru o gymunedau cydlynus'*. |

| Blaenoriaethau cenedlaethol y PAN | Cwmpas | Nodau llesiant perthnasol | Sylwebaeth |
|---|---|---|---|
| | | | Fel y blaenoriaethau eraill, mae gweithredu ar sail lle yn creu cyfleoedd i gyfrannu at y nod cenedlaethol o *'Gymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'*.<br><br>Mae'r flaenoriaeth yn cydnabod bod y 'lle' priodol i daclo unrhyw fater yn amrywio a gallai lle felly fod yn eang, gan rychwantu ffiniau hyd yn oed. P'run bynnag, mae'n bwysig ystyried yr effeithiau posib y tu hwnt i'r 'lleol' (er enghraifft, y buddiannau a ddaw o reoli mawnogydd a dal a storio carbon). Mae potensial felly i'r flaenoriaeth hon gyfrannu at y nod o *'Gymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd eang'*. |

# Nodiadau

1 Adran 3 (1) 'Rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol'
(a) defnyddio adnoddau naturiol mewn modd ac ar gyfradd sy'n hyrwyddo cyflawni'r amcan yn is-adran (2),
(b) cymryd camau eraill sy'n hyrwyddo cyflawni'r amcan hwnnw, a
(c) pheidio â chymryd camau sy'n llesteirio cyflawni'r amcan hwnnw.
Mae Adran 3 (2) yn esbonio mai amcan rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt (gwasanaethau ecosystemau) ac, wrth wneud hynny, diwallu anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau, a chyfrannu at gyrraedd y nodau llesiant yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

2 Ein hadnoddau naturiol yw'n planhigion, anifeiliaid ac organeddau eraill; aer, dŵr a phridd, mwynau, nodweddion a phrosesau daearegol, nodweddion a phrosesau ffisiolegol a nodweddion a phrosesau'r hinsawdd. Ecosystemau yw'n horganeddau byw (planhigion, anifeiliaid a micro-organebau) ynghyd â'n hadnoddau naturiol difywyd (aer, dŵr, mwynau a phridd) a'r rhyngweithio amrywiol a chymhleth sy'n digwydd rhyngddynt.

3 Mae Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol (CBD) yn disgrifio'r dull rheoli ar lefel ecosystem fel strategaeth ar gyfer rheoli tir, dŵr ac adnoddau byw mewn ffordd integredig sy'n hyrwyddo eu gwarchod a'u defnyddio yn gynaliadwy a theg' a chaiff ei chydnabod trwy'r byd fel y ffordd orau o arafu'r dirywiad mewn bioamrywiaeth. Trwy'r cysyniad o 'reoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol', mae rhan 1 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) yn rhoi sail statudol i'r dull rheoli ar lefel ecosystem, gan ddefnyddio'r 12 egwyddor a sefydlwyd gan y CBD.

4 Mae bioamrywiaeth yn golygu'r amrywiaeth o organeddau byw, ar lefel genynnol, rhywogaeth neu ecosystem. Mae'n cynnwys yr holl rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid, eu niferoedd a'u hamrywiaeth enetig. Bioamrywiaeth sy'n cynnal prosesau ecosystem ac sy'n sail i gydnerthedd yr ecosystem ac i'r dull rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Pan fydd y fioamrywiaeth yn prinhau a heb ymadfer, mae'n effeithio ar allu'r ecosystem i addasu i newid a'r aflonyddu arni.

5 Yn y Ddeddf Llesiant, os gofynnir i gorff cyhoeddus wneud rhywbeth "yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy", mae hynny'n golygu bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn ffordd sy'n sicrhau bod anghenion heddiw'n cael eu diwallu heb aberthu gallu'r cenedlaethau i ddod i ddiwallu'u hanghenion hwythau.

6 Amcan rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yw cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r buddiannau (gwasanaethau ecosystemau) y maen nhw'n eu darparu a thrwy wneud, diwallu anghenion pobl heddiw heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu'u hanghenion hwythau, a chyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant.

7 Nid oes bwriad creu gwrthdaro rhwng swyddogaethau cyffredinol awdurdod a'r ddyletswydd bioamrywiaeth. Gwneir y ddyletswydd wrth i awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau.

8 Yr hen enw arno ywr Cynllun Adfer Natur Cymru a chewch ei weld gov.wales/topics/environmentcountryside/consmanagement/conservationbiodiversity/?lang=en

9 Mae'r amcanion hyn yn mynd i'r afael â nodau strategol Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol www.cbd.int/sp/elements/default.shtml

10 www.biodiversitywales.org.uk/Cynllun-Gweithredu-Cymru-ar-gyfer-Pryfed-Peillio